British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig



2025

# Iechyd a gofal

Gweithio mewn partneriaeth â'r **GIG, gofal cymdeithasol,** y **sectorau gwirfoddol a chymunedol.**

**Dros ddynoliaeth**

# Cynnwys

3 Pam Y Groes Goch Brydeinig?

7 Ein gwasanaethau

20 Gweithrediadau iechyd a gofal

22 Dealltwriaeth, gwelliant ac arloesi

25 Adrodd, monitro a gwerthuso

28 Am beth rydym ni'n sefyll

32 Cysylltwch â ni

Llun © Dan Mellor/BRC



# Pam Y Groes Goch Brydeinig?



Llun © BRC

# Ein hanes blaenorol

Am dros 150 o flynyddoedd, rydym wedi defnyddio grym **dynoliaeth er mwyn i** unigolion a chymunedau allu paratoi ar gyfer argyfyngau, ymateb iddynt, a dod drostynt – gartref ac ar draws y byd.

Mae'r Groes Goch Brydeinig wedi bod yn cefnogi systemau iechyd a gofal cymdeithasol ers sefydlu'r GIG. Rydym ni'n awyddus i weld y bartneriaeth honno'n **dyfnhau ac yn tyfu.**

Mae gennym **brofiad helaeth** o ddarparu cymorth gwerthfawr i bobl pan fyddant ei hangen fwyaf ar draws y DU.

Mae ein **seilwaith ledled y DU** yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithlon, y gellir eu hehangu ac y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau, a ddarperir yn ymatebol ac yn hyblyg yn unol ag anghenion lleol.



# Ein dull gweithredu

Mae’r Groes Goch Brydeinig yn cynnig atebion iechyd a gofal ar draws pedair gwlad y DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel, gan ddarparu **gwasanaethau dibynadwy** sydd â hanes cryf o gael effaith gadarnhaol.

Rydym yn cyd-ddylunio **gwasanaethau pwrpasol** i ddiwallu anghenion eich cyd-destun lleol, gan dynnu ar dystiolaeth a dealltwriaeth o’r hyn sy’n gweithio.

Rydym hefyd yn dylunio, yn **profi ac yn gwerthuso dulliau newydd o** wella canlyniadau iechyd.

(Yr Alban) Llun © Jeremy Sutton-Hibbert/BRC
(Gogledd Iwerddon) Llun © Dan Mellor/BRC
(Lloegr) Llun © Fabio Di Paola/BRC
(Cymru) Llun © Phil Greenwood/BRC

# Ein heffaith

## Cynlluniau rhyddhau gyda chymorth

**Buddsoddiad a wnaed**

**£1**

**£2.42**

**Gwerth cymdeithasol a gynhyrchir**

- **Gwella ansawdd bywyd** i bobl a gefnogwyd
- **Lleihad** mewn defnydd o systemau iechyd
- **Swyddi** a **thwf economaidd** mewn ardaloedd lleol
- **Effaith amgylcheddol** gadarnhaol

Yn 2024 **creodd cymorth Y Groes Goch Brydeinig dros**

**£8 million**

o werth i'r sector **iechyd a gofal cymdeithasol.**

Yn 2024 **arbedwyd**

**20,000**

**o welyau ysbyty.**

## Cymorth i'r adran damweiniau ac achosion brys

**77%**

o staff y GIG yn teimlo bod Y Groes Goch Brydeinig wedi gwneud cyfraniad sylweddol at **wella llif cleifion** yn yr adran, gan **leihau oedi wrth drosglwyddo a rhyddhau cleifion.**

**87%**

o staff y GIG yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwneud **cyfraniad sylweddol** at **ryddhau eu hamser a gwella eu lles.**

## Defnydd dwysedd uchel

**58%**

o **ostyngiad** yn nifer y bobl sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys

**71%**

o **ostyngiad** mewn cludiant ambiwlans

**67%**

o **ostyngiad** mewn derbyniadau nad ydynt yn rhai dewisol

Ffynonellau: Arolygon 2022 - gwerthusiad o'n gwasanaethau cymorth ymchwydd y GIG a sampl o 50 o gleifion a gefnogwyd yn rhaglen defnydd dwys Stockport.
Dangosfwrdd Power BI iechyd y DU 2024.

# Mynegai gwasanaethau iechyd


Llun © Dan Mellor/BRC

# Mynegai gwasanaethau iechyd

## Integreiddio a lleoli

| Gwasanaethau | Gweithio gydag ysbytai | Gweithio gyda darparwyr cymunedol | Gweithio gyda gofal sylfaenol | Gweithio gyda gofal cymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| 1 **Cefnogaeth ysbyty yn y cartref** | ● | ● | ● | ● |
| 2 **Rhyddhau gyda chymorth** | ● | ○ | ○ | ○ |
| 3 **Defnydd dwysedd uchel** | ● | ● | ● | ● |
| 4 **Ailalluogi** | ● | ● | ● | ● |
| 5 **Rhyddhau i asesu** | ● | ● | ○ | ● |
| 6 **Gofal pontio tymor byr** | ● | ● | ● | ● |
| 7 **Cefnogi'r adran damweiniau ac achosion brys** | ● | ○ | ○ | ○ |
| 8 **Cludiant cleifion** | ● | ● | ○ | ● |
| 9 **Cymorth yn y cartref** | ● | ● | ○ | ● |
| 10 **Presgripsiynu cymdeithasol a chydlynu lleol** | ○ | ● | ● | ● |
| 11 **Hyfforddiant iechyd aros yn iach** | ● | ● | ● | ○ |

# 1 Cefnogaeth ysbyty yn y cartref

Rydym yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl yn eu cartrefi, tra'n derbyn gofal fel rhan o wasanaeth ysbyty yn y cartref. Drwy ddarparu cymorth amrywiol, rydym yn galluogi timau clinigol i ganolbwyntio lle mae'r angen mwyaf, gan alluogi pobl i deimlo'n ddiogel, bod rhywun yn gwrando, ac yn rhan o'u gofal iechyd eu hunain.

## Yr her

- Symud gofal yn agosach at gartref
- Targedau ymestyn ar gyfer llenwi gwelyau ysbyty yn y cartref
- Llif cleifion drwy ysbytai aciwt
- Pobl nad oes angen gofal ysbyty arnynt mwyach yn aros yn rhy hir mewn gwely aciwt
- Cefnogi pobl i reoli eu hiechyd eu hunain yn weithredol – ysgogi cleifion
- Diffyg cefnogaeth gymdeithasol i bobl unig ac ynysig
- Oedi oherwydd problemau trafnidiaeth
- Pryder ac ofn ynghylch cael gofal yn y cartref

## Y gwasanaeth

**Tîm o weithwyr proffesiynol** yn gweithio fel rhan annatod o, neu fel estyniad i, dîm amlddisgyblaethol, **sy'n gyfrifol am ofal a chefnogaeth pobl sy'n byw yn yr ysbyty yn y cartref.**

Cynllunio cymorth cyfannol, gosod nodau ac ymyriadau sy'n helpu i wella **llesiant, annibyniaeth** a **gwytnwch** unigolyn, gyda'r opsiwn i gynnwys gweithgareddau rheoleiddiedig fel **gofal personol.**

## Yr effaith

- **Yn cael gwared ar rwystrau ymarferol ac emosiynol** i ryddhad amserol o wely aciwt
- **Lleihau** tebygolrwydd o **ail-dderbyniad**
- Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu **cefnogi'n dda ac yn llai pryderus**
- Mae pobl yn adennill eu **hannibyniaeth**
- **Mynediad teg at ysbyty yn y cartref**
- **Cael gwared ar rwystrau** rhag defnyddio technoleg monitro iechyd o bell, gan **alluogi cynhwysiant digidol**
- Mae pobl yn cael eu **cefnogi mewn amgylchedd diogel,** gyda mynediad at fwyd ac opsiynau cymorth os bydd eu hanghenion yn gwaethygu
- Mae gan bobl fwy o wybodaeth a chysylltiad â gwasanaethau eraill a **rhwydweithiau cymorth cymdeithasol**
- **Grymuso** gofalwyr drwy **gynyddu cymorth**

*"Mae'n sicr wedi bod yn* ***un o'r pethau gorau y maent yn eu gwneud drosom ni****… roeddem yn gweld* ***cartrefi gofal*** *yn gwrthod* ***derbyn cleifion.*** *Fodd bynnag,* ***nid ydym yn tueddu i weld hynny cymaint nawr."***

**Gweithiwr iechyd proffesiynol GIG**

# 2 Rhyddhau gyda chymorth

Rydym yn cefnogi cleifion i ddychwelyd adref o'r ysbyty pan nad oes angen gofal ysbyty arnynt mwyach, gan wella llif cleifion drwy alluogi rhyddhau cleifion yn gyflymach ac yn fwy diogel ac atal ail-dderbyn cleifion.

## Yr her

- Llif cleifion drwy ysbytai
- Pobl nad oes angen gofal ysbyty arnynt mwyach yn aros yn rhy hir mewn gwely aciwt
- Oedi mewn gwasanaethau ambiwlans ac adrannau damweiniau ac achosion brys
- Diffyg cefnogaeth gymdeithasol i gleifion unig ac ynysig
- Dirywiad yn ffitrwydd pobl sy'n feddygol iach
- Oedi oherwydd problemau trafnidiaeth
- Pryder a llai o hyder ymysg cleifion wrth ddychwelyd adref o'r ysbyty
- Lleihau hyd estynedig yr arhosiad

## Y gwasanaeth

Tîm sydd wedi'i gydleoli mewn ysbyty ac yn gweithio'n integredig gyda chanolfannau rhyddhau a wardiau, gan ymateb yn brydlon i gyfeiriadau ac yn cydlynu'r broses o drosglwyddo adref, gan gynnwys trafndiaeth.

**Mae'r tîm yn cynnig cymysgedd o gefnogaeth ymarferol ac emosiynol uniongyrchol am hyd at 72 awr i sicrhau bod dychwelyd adref yn broses llyfn.**

## Yr effaith

- **Lleihau meddiannaeth gwelyau gan** gleifion sy'n barod i adael
- **Cyflymu'r** broses rhyddhau
- **Gwella llif**
- **Cael gwared ar rwystrau ymarferol ac emosiynol** i ryddhau yn brydlon
- **Lleihau** tebygolrwydd o ail-dderbyn
- Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu **cefnogi'n dda** ac yn llai pryderus
- Mae pobl yn **adennill eu hannibyniaeth**
- Mae pobl yn dychwelyd adref i **amgylchedd diogel**, gyda **mynediad at fwyd ac opsiynau cefnogaeth** os bydd eu hanghenion yn gwaethygu

*"Rwy'n ddiolchgar iawn am bopeth rydych chi wedi'i wneud i fy helpu i gael fy nhraed danaf ac i **deimlo llawer mwy hyderus am symud ymlaen** – ni allaf ddychmygu beth fyddwn wedi'i wneud hebddoch chi."*

**Person a gefnogwyd**

*"...roedd Y Groes Goch Brydeinig yno **o fewn 20 munud** gan ryddhau gwely"*

**Staff y GIG**

# 3 Defnydd dwysedd uchel

Rydym yn cynnig rhaglen allgymorth dyfal ar gyfer pobl sy'n cael gofal brys yn rheolaidd oherwydd eu bod yn disgyn drwy fylchau yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

## Yr her

- Anghydraddoldebau iechyd
- Rhwystrau i fynediad neu ymgysylltu
- Llai o bresenoldeb, derbyniadau a hyd arhosiad
- Gostyngiad yn nifer y galwadau 999 a drosglwyddir
- Dirywiad yn iechyd neu les meddyliol unigolyn, a waethygir gan anghenion cymdeithasol sydd heb ei ddiwallu

## Y gwasanaeth

**Dull hyfforddi un-i-un cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau, y gellir ei deilwra i gefnogi unrhyw ran o'r system iechyd a gofal.**

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl sy'n defnyddio adrannau brys, gwasanaethau iechyd meddwl, ambiwlans, gofal sylfaenol neu ofal cymdeithasol i oedolion yn rheolaidd. **Mae'n gallu gwella canlyniadau iechyd ar yr un pryd â lleihau presenoldebau, derbyniadau brys a chludiant ambiwlans.**

## Yr effaith

- Canlyniadau **iechyd a llesiant gwell**
- Mae ysgogi yn arwain at lowc rheoli, **hyder a gwytnwch gwell**
- Gostyngiad o 40% mewn **presenoldebau adrannau damweiniau ac achosion brys**
- Gostyngiad o 40% mewn **arhosiadau hir nad ydynt yn ddewisol**
- Gostyngiad o 40% mewn **galwadau a chludiadau**
- Gostyngiad o 40% mewn **presenoldeb gyda chysylltiadau seiciatrig**
- Gostyngiad o 40% mewn **dyddiau gwely iechyd meddwl**

*"Rwy'n gwybod bod Jack yn gwerthfawrogi'n fawr bopeth rydych chi wedi'i wneud iddo. Rydych wedi llwyddo i ddatblygu a chynnal perthynas ag ef; sy'n hynod bwysig wrth ei helpu i ddeall* ***y gall ymddiried mewn pobl, yn enwedig gweithwyr proffesiynol*** *– diolch yn fawr!!"*

**Gweithiwr cymdeithasol**

# 4 Ailalluogi

Mae ein gwasanaeth – a ddarperir gartref – yn canolbwyntio ar gryfderau pobl, yn hybu eu llesiant ac yn eu helpu i fyw'n annibynnol. Mae'n ailadeiladu hyder ar ôl cyfnod o salwch, dirywiad mewn iechyd, anaf, derbyniad ysbyty neu anabledd. Fel arfer, mae'r gefnogaeth yn para hyd at chwe wythnos.

## Yr her

- Llif cleifion drwy ysbytai aciwt
- Pobl nad oes angen gofal ysbyty arnynt bellach ond sy'n aros yn rhy hir mewn gwely aciwt
- Dirywiad gweithredol yn dilyn cyfnod o salwch neu arhosiad yn yr ysbyty
- Y dull 'gwneud i' traddodiadol o ofal yn y cartref

## Y gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl i wneud pethau drostynt eu hunain yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n fodel 'gwneud gyda', yn wahanol i ofal yn y cartref traddodiadol sy'n tueddu i fod yn fodel 'gwneud dros'.

**Mae gwasanaethau ailalluogi yn helpu pobl i gadw neu adennill eu sgiliau a'u hyder, gan eu galluogi i barhau i fyw fel y dymunant** drwy wneud gweithgareddau cyffredin fel coginio prydau, golchi, gwisgo, symud o amgylch y cartref a mynd allan.

## Yr effaith

- Cael gwared ar **rwystrau ymarferol ac emosiynol** i ryddhau amserol o'r ysbyty
- Llai o debygolrwydd o **ail-dderbyniad i'r ysbyty**
- Mae pobl yn teimlo **cefnogaeth dda** ac yn **llai pryderus**
- Mae pobl yn **adennill eu hannibyniaeth**
- Lleihau'r tebygolrwydd o **fod angen gofal parhaus neu ofal preswyl**
- Gall helpu i **leihau'r gofal sydd ei angen ar y person** gan ofalwyr a theulu
- **Gwella** hyder, gallu gweithredol, symudedd, annibyniaeth a lles
- I staff, mae hwn yn ddull gwerth chweil lle mae gwelliannau'n arwain at **ymdeimlad o gyflawniad gwirioneddol**

*"Allai ddim diolch digon i chi am eich cymorth a'ch proffesiynoldeb; mae eich gwasanaeth wedi bod yn wych."*

**Person a gefnogwyd**

# 5 Rhyddhau i asesu

Mae ein gwasanaeth arbenigol yn galluogi pobl i adael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn gallu gwneud hynny'n glinigol, trwy ddarparu asesiad ar unwaith a datblygu cynllun cymorth personol tymor byr, gan fonitro cynnydd yn gyson. Mae'r ffocws ar wneud y mwyaf o annibyniaeth gweithredol yn y cartref, gofal personol, anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac adfer hyder pobl.

## Yr her

- Llif cleifion drwy ysbytai aciwt – yn enwedig y rhai y gellir eu rhyddhau ond sy'n aros am becyn gofal
- Dirywiad gweithredol yn dilyn cyfnod o salwch neu arhosiad yn yr ysbyty
- Efallai na fydd asesiadau byw'n annibynnol a gwblhawyd yn yr ysbyty yn adlewyrchu realiti amgylchedd cartref y person
- Symud gofal yn nes at y cartref
- Diffyg cymorth cymdeithasol i bobl unig ac ynysig
- Pryder ac ofn ynghylch cael gofal yn y cartref

## Y gwasanaeth

Mae'r cymorth yn dilyn dull galluogi, 'gwneud gyda' yn hytrach na 'gwneud dros'. Mae'n dechrau gydag asesiad personol yn eu cartref eu hunain, gan gynnwys yr unigolyn wrth ddatblygu eu cynllun cymorth, cytuno ar nodau byw'n annibynnol ac yna lleihau'r gofal ffurfiol yn unol â'r cynnydd tuag at eu nodau. Mae cymorth yn cynnwys gofal personol a gweinyddu meddyginiaeth, a chaiff cynnydd ei adolygu fesul ymweliad.

**Mae'r gwasanaeth yn gwella ansawdd bywyd pobl, eu dewis, rheolaeth, lles cyffredinol ac annibyniaeth, sy'n cynnig tawelwch meddwl i deulu, gofalwyr ac anwyliaid.**

Gall y gwasanaeth hefyd gefnogi cleifion gofal lliniarol neu ddiwedd oes yn eu cartref.

## Yr effaith

- **Yn dileu rhwystrau ymarferol ac emosiynol** i gael rhyddhad amserol o'r ysbyty
- **Yn lleihau'r** tebygolrwydd o ail-dderbyniad i'r ysbyty
- **Yn gwella effeithiolrwydd** asesiadau **byw'n annibynnol**
- Lleihau'r gofal **sydd ei angen a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl**
- **Gwelliant** mewn hyder, gallu gweithredol, symudedd, annibyniaeth a lles

*"Mae popeth yn eich dwylo chi, **nid yw hi'n [y gweithiwr cymorth] gwneud pethau i chi ond yn eich helpu, mae'n rhoi'r teimlad hwnnw o reolaeth."***

**Person a gefnogwyd**

# 6 Gofal pontio tymor byr

Rydym yn darparu gofal a chymorth personol tymor byr (gan gynnwys gweithgareddau rheoledig) yng nghartref yr unigolyn, er mwyn diwallu eu hanghenion gofal.

## Yr her

- Llif cleifion drwy ysbytai aciwt – yn benodol y rhai y gellid eu rhyddhau ond sy'n aros am becyn gofal
- Symud gofal yn agosach at gartref
- Cefnogi'r defnydd o welyau ar wardiau rhithwir
- Pobl nad oes angen gofal ysbyty arnynt bellach yn aros yn rhy hir mewn gwely aciwt
- Diffyg cymorth cymdeithasol i bobl unig ac ynysig
- Pryder ac ofn ynghylch cael gofal yn y cartref

## Y gwasanaeth

**Gofal a chymorth personol i bobl nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion gofal eu hunain.**

Fel arfer, darperir cymorth ar ôl rhyddhau o'r ysbyty, wrth aros am becyn gofal, wrth gael eu trin ar ward rithwir, wrth symud i lefel is o gymorth gofal, gofal lliniarol, neu fel dewis arall yn lle derbyn i'r ysbyty.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig **ymateb cyflym** i angen drwy **ddefnyddio staff medrus i gefnogi cleifion gofal lliniarol neu ddiwedd oes yn eu cartrefi eu hunain,** gan gynnwys gweithgareddau wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio.

## Yr effaith

- Mae pobl yn **adennill eu hannibyniaeth**
- Mae pobl yn aros yn eu cartrefi eu hunain gyda **gwelliant** neu gynhaliaeth yn eu **hansawdd bywyd**
- Yn dileu rhwystrau i ryddhau amserol o wely aciwt, gan **leihau pwysau** ar systemau iechyd a gofal
- Yn diwallu anghenion personol ac anghenion eraill
- Lleihau'r tebygolrwydd o **aildderbyn**
- Mae cleifion yn teimlo eu bod yn **cael cefnogaeth dda ac yn llai pryderus** mewn amgylchedd diogel
- Nid yw teuluoedd yn cael eu llethu, gallant **barhau i ddarparu gofal** a chael gwell ansawdd bywyd
- Mae gan bobl fwy o **wybodaeth a chysylltiad** â gwasanaethau eraill a rhwydweithiau cymorth cymdeithasol

*"Allen nhw ddim bod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol. Cefais fy nhrin gyda pharch ac urddas drwy gydol fy nhaith, roedden nhw'n gwneud **i mi deimlo fel bod dynol, nid claf.**"*

**Person a gefnogwyd**

# 7 Cefnogaeth i'r adran damweiniau ac achosion brys

Rydym yn cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl, eu teuluoedd neu eu gofalwyr, yn yr adran damweiniau ac achosion brys, gyda'r opsiwn i gynnwys cludiant adref. Mae ein tasgau ymarferol yn cefnogi cydweithwyr y GIG i redeg yr adran damweiniau ac achosion brys yn effeithlon.

## Yr her

- Targed amser aros o bedair awr yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys
- Nifer fawr o bobl yn cyflwyno i adrannau damweiniau ac achosion brys
- Arosiadau hir, yn yr adran ac mewn ambiwlans y tu allan i'r adrannau
- Gallu staff y GIG i gynorthwyo pobl sy'n aros am frysbennu neu driniaeth wedi'i ymestyn

## Y gwasanaeth

Mae timau'n cael eu lleoli o fewn adrannau damweiniau ac achosion brys, gan ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan gynnwys cludiant adref a galwadau lles dilynol os oes angen.

**Mae timau'n darparu cymorth emosiynol i bobl sy'n profi dryswch, gofid neu drallod.**

Maent hefyd yn cynnig cymorth ymarferol i ddiwallu anghenion corfforol uniongyrchol rhywun. Gall hyn olygu darparu blanced, powlen salwch, neu glustog, yn ogystal â bwyd a diod. Mae'r tîm yn cysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn trosglwyddo gwybodaeth i gleifion, teuluoedd a gofalwyr.

## Yr effaith

- Bydd pobl agored i niwed yn **teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well** ac yn llai pryderus
- **Lleihau** defnydd amhriodol o adrannau damweiniau ac achosion brys
- Gall pobl **ddychwelyd adref yn gyflymach** ar ôl asesiad a/neu driniaeth
- Llai o **dderbyniadau cymdeithasol**
- Staff adrannau damweiniau ac achosion brys y GIG yn **teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth**

**77%**

o staff y GIG a holwyd yn teimlo bod Y Groes Goch Brydeinig wedi gwneud **cyfraniad sylweddol** at **wella llif cleifion** yn yr adran a **lleihau oedi.**

**87%**

yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwneud **cyfraniad sylweddol** at **ryddhau staff y GIG** a **gwella eu lles.**

# 8 Cludiant cleifion

Rydym yn cynnig gwasanaethau cludiant cleifion sydd ddim yn rhai brys ar gyfer pobl â chyflyrau meddygol neu faterion symudedd sydd ddim angen gofal brys, ond sydd angen cymorth i deithio yn ôl ac ymlaen i gyfleusterau iechyd.

## Yr her

- Oedi wrth drosglwyddo gofal
- Ystafelloedd rhyddhau ac ystafelloedd aros llawn
- Cyfraddau uchel o apwyntiadau 'heb fynychu' ac wedi eu methu
- Oedi gyda chyfnodau gofal a thriniaeth oherwydd diffyg cludiant addas

## Y gwasanaeth

**Gwasanaethau cludo cleifion heb fod ar frys sy'n amserol a dibynadwy gan helpu i leihau oedi a methu apwyntiadau.**

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod pobl sydd â chyflyrau meddygol neu broblemau symudedd, nad oes angen gofal brys arnynt, yn cael eu cefnogi i gyrraedd y lleoliad iechyd cywir a dychwelyd adref yn ddiogel.

## Yr effaith

- Gwell **profiad personol**
- **Pontio gartref mwy diogel** yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty neu driniaeth mewn lleoliad gofal iechyd
- Lleihau'r **cyfraddau 'heb fynychu'**
- **Trosglwyddo gofal amserol** a rhyddhau o'r ysbyty

*"Allen nhw ddim bod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol. Cefais fy nhrin gyda pharch ac urddas drwy gydol fy nhaith, roedden nhw'n gwneud* ***i mi deimlo fel bod dynol, nid claf.****"*

**Person a gefnogwyd**

# 9 Cymorth yn y cartref

Mae ein cymorth un-i-un fel arfer yn para rhwng 4 a 12 wythnos, gan helpu i gynyddu gwytnwch ac annibyniaeth unigolyn ar ôl anaf, salwch, arhosiad yn yr ysbyty neu argyfwng arall. Gall hefyd fod yn gymorth ataliol i helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles.

## Yr her

- Pobl unig ac ynysig
- Canlyniadau iechyd negyddol sy'n gysylltiedig â bod yn unig neu'n ynysig
- Mae pobl sydd â chyflyrau tymor hir neu symudedd cyfyngedig mewn mwy o berygl o fod yn unig ac yn ynysig
- Gallu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartref eu hunain
- Pobl â heriau cymdeithasol yn chwilio am gymorth gan wasanaethau clinigol

## Y gwasanaeth

Meithrin **perthynas** ac **ymddiriedaeth** ar sail un-i-un gyda phobl, **cael sgyrsiau i osod nodau personol** a deall eu llesiant, eu teulu a pherthnasoedd, bywyd cymdeithasol, amgylchedd byw, cefndir diwylliannol ac unrhyw risgiau sy'n benodol iddyn nhw.

Mae'r ymyriadau'n cynnwys gwiriadau lles, asesiadau risg yn y cartref, taliadau cymorth costau byw, cludiant cymunedol, ymweliadau cymdeithasol, siopa, a chysylltu ag adnoddau a gwasanaethau lleol.

## Yr effaith

- Gwella **lles, annibyniaeth, rheoli dewis** a **gwytnwch**
- **Lleihau'r teimlad o unigrwydd** ac arwahanrwydd cymdeithasol
- Mwy o gysylltiad â phobl eraill a ffynonellau cymorth
- Llai o **ddibyniaeth ar wasanaethau clinigol** at ddibenion anghlinigol

*"Roedd mor **braf gwybod bod rhywun yn cymryd diddordeb yn fy anghenion** - does gen i ddim teulu'n lleol ac rwy'n heneiddio, felly mae angen mwy a mwy o gymorth arnaf..."*

**Person a gefnogwyd**

*"Pe na bai'r gwasanaeth hwn yn bodoli, mae'n debyg y byddai ein cleifion wedi'u hychwanegu at restr aros gwaith cymdeithasol i gael eu hadolygu ar gyfer cymorth. Byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar yr amser y byddai'r claf yn aros ar rhestr achosion ein tîm tra'n aros am ddyraniad.*

*Byddai angen amser i gwblhau atgyfeiriad gwaith cymdeithasol, ac fel tîm, byddem yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r cymorth uniongyrchol sydd ei angen ar rai cleifion, cymorth y mae'r Groes Goch Brydeinig yn ei ddarparu yn aml i ni."*

**Partner y GIG**

# 10 Presgripsiynu cymdeithasol a chydlynu lleol

Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hanelu at atal, oedi neu leihau'r angen am ofal ffurfiol drwy fagu perthynas gyda phobl sy'n aml yn cael eu cyfeirio gan ofal sylfaenol a chymdeithasol. Rydym yn eu cysylltu â gweithgareddau a grwpiau yn y gymuned i ddiwallu eu hanghenion ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol.

## Yr her

- Mae llawer o wasanaethau presgripsiynu cymdeithasol ar raddfa fach ac ynysig yn cael effaith annigonol.
- Pwysau cynyddol ar wasanaethau rheng flaen a galw uchel am ofal ffurfiol
- Pobl sy'n profi teimladau parhaus o unigrwydd
- Pobl sydd â nifer cyfyngedig o rwydweithiau cymorth cymdeithasol
- Anghenion iechyd a chymdeithasol heb eu diwallu sydd, os na fyddant yn cael sylw, yn arwain at leihad mewn annibyniaeth, dewis, rheolaeth a llesiant cyffredinol, gan roi mwy o bwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol statudol

## Y gwasanaeth

Darparu **cymorth personol** ac **ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gyfuno egwyddorion presgripsiynu cymdeithasol** gyda **hyfforddiant iechyd i feithrin gwytnwch pobl.**

Cytunir ar nodau gan ganolbwyntio ar **greu cysylltiad cynaliadwy ag adnoddau lleol**, yn unol â diddordebau'r unigolyn. **Mae timau gwasanaeth wedi'u gwreiddio yn eu cymuned** ac yn **bartneriaid allweddol gyda gofal cymdeithasol i oedolion.**

## Yr effaith

- **Lleihau'r pwysau** ar wasanaethau rheng flaen
- **Lleihau'r galw** am ofal ffurfiol **gan helpu i fynd i'r afael â'r galw uchel** ar wasanaethau gofal cymdeithasol
- **Arbedion i'r system,** gan helpu i **ailflaenoriaethu a thrawsnewid cyllid** o ofal ffurfiol mewn i atal
- Llai o **unigrwydd** ac ynysu cymdeithasol
- **Gwell ymdeimlad o lesiant** a **grymuso personol**
- **Gwell lefelau ysgogi iechyd**
- **Cysylltedd cynyddol** â phobl eraill a ffynonellau cymorth

**79%** o'r **bobl a gefnogir** gan wasanaethau cydlynu lleol yn **adrodd gwelliant** yn eu **lles cyffredinol**

**73%** o'r **bobl a gefnogir** gan wasanaethau cydlynu lleol yn **adrodd gwelliant** yn eu lefelau ysgogi iechyd

*"Ni chefais* **ddim ond profiadau cadarnhaol** *gyda'r gwasanaeth cydlynu lleol ac* **mae'r holl weithwyr bob amser yn hapus i helpu.**"

**Person a gefnogwyd**

# 11 Hyfforddiant iechyd “aros yn iach”

Mae ein cymorth hyfforddi ymarferol ac emosiynol yn gwella iechyd a lles pobl sy’n byw ar restr aros gofal dewisol. Mae’r gwasanaeth yn hybu annibyniaeth ac yn annog pobl i gynnal lefelau gweithgarwch, gan sicrhau eu bod yn barod ar gyfer eu llawdriniaeth pan gaiff ei drefnu.

## Yr her

- Pobl sydd â chyflyrau tymor hir neu symudedd cyfyngedig mewn perygl uwch o fod yn unig ac yn ynysig
- Atal presenoldeb neu dderbyniad i’r ysbyty
- Atal diffyg presenoldeb mewn apwyntiadau iechyd
- Cefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartref eu hunain

## Y gwasanaeth

Mae’r gwasanaeth yn darparu ymyriadau medrus sy’n ceisio **ysgogi unigolion i reoli eu hunain yn well, meithrin gwytnwch wrth baratoi ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol** neu reoli cyflyrau tymor hir.

Mae’r dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi’i deilwra i nodau ac anghenion unigol. Gall y dull hefyd weithio mewn senarios gofal wedi’u rhag-gynllunio neu mae modd ei wella ymhellach drwy dargedu’r rheini sy’n cael mynediad at ofal brys wrth ‘aros’.

## Yr effaith

- Ysgogi gan arwain at **well dewis a rheolaeth**
- **Addysg** a **hyfforddiant** sy’n arwain at ganlyniadau iechyd, llesiant a gwytnwch gwell
- **Lleihau’r teimlad o unigrwydd** ac arwahanrwydd cymdeithasol
- Mwy o gysylltiad â phobl ac adnoddau eraill
- **Llai o ddibyniaeth** ar wasanaethau clinigol

*“Roeddwn i’n gwerthfawrogi’r gefnogaeth; fe wnaeth fy sefyllfa yn haws i’w rheoli. **Cefais gyngor da a gwybodaeth ddefnyddiol i fy helpu i barhau.**”*

**Person a gefnogwyd**

# Gweithrediadau iechyd a gofal



Llun © Jeremy Sutton/BRC

# Gweithrediadau iechyd a gofal

Mae ein portffolio o **wasanaethau iechyd o ansawdd uchel** wedi'i gynllunio i fod **wedi'i integreiddio i systemau a llwybrau iechyd a gofal presennol**, ac wedi'i deilwra i'r cyd-destun lleol. Ei nod yw sicrhau bod pobl yn **cael y cymorth sydd ei angen arnynt, cyn, yn ystod ac ar ôl defnyddio'r GIG.**

Mae gweithio gyda'n gilydd eisoes wedi cynhyrchu **canlyniadau gwych**: o **ryddhau ysbyty cyflymach, llyfnach a mwy diogel**; i sicrhau bod **miloedd o gleifion** yn **derbyn mynediad i'w hapwyntiadau iechyd** ar drawsy DU.

Does dim i atal ein partneriaeth rhag parhau i fynd **nerth i nerth**, gan helpu i adeiladu system iechyd a gofal fwy cynhwysfawr, lle **nad yw pobl yn syrthio drwy'r bylchau nac yn profi anghydraddoldeb.**

## Yr hyn a wnawn

**Yr hyn a wnawn**

Rydym yn helpu pobl i **reoli eu hiechyd** ac i **adeiladu gwytnwch.**

**Grymuso adferiad iach**

Mae ein dull **person-ganolog sy'n seiliedig ar drawma** yn cefnogi **adferiad.**

**Ailadeiladu llesiant**

Rydym yn helpu'r rheiny sydd yn y perygl mwyaf i greu **bywydau iachach** ac **osgoi argyfwng.**

## Sut rydym yn gwneud hyn

Rhoi i bobl y **cymorth person-ganolog, pwrpasol, amserol, personol a hyblyg** sydd ei angen arnynt i gyflawni eu nodau byw'n annibynnol

Darparu **dychweliad ar fuddsoddiad** ar gyfer y system iechyd a gofal

**Integreiddio gyda thimau a llwybrau** yn y systemau iechyd a gofal

Cyflwyno **modelau gwasanaeth cenedlaethol wedi'u seilio ar dystiolaeth**, wedi'u halinio â chyd-destun a gofynion y comisiynydd lleol

**Gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol** amser gwirfoddolwyr




# Dealltwriaeth, gwelliant ac arloesi

# Dealltwriaeth


Mae ein **hadnodd archwilio anghydraddoldebau iechyd** yn archwilio **anghydraddoldebau iechyd sy'n seiliedig ar leoliad** ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol yn y DU, drwy bedwar grŵp:

**Dangosyddion cryno**

- Ardaloedd a adawyd ar ôl
- Mynegai amddifadedd lluosog
- Mynediad at ofal iechyd corfforol
- Mynediad at ofal iechyd digidol

**Mynegai iechyd ONS**

- Canlyniadau iechyd
- Penderfynyddion cymdeithasol iechyd
- Ffactorau risg y gellir eu hatal



**Dangosyddion gofal eilaidd**

- Gwelyau wedi'u rhyddhau
- Gwelyau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer preswylio
- Argaeledd gwelyau

**Dangosyddion demograffeg**

- Oedran
- Rhyw
- Ethnigrwydd

# Gwelliant

Mae gan Y Groes Goch Brydeinig dimau pwrpasol ar gyfer deall a gwella, sy'n hyrwyddo **gwelliant parhaus.**

- Deallusrwydd busnes
- Cyd-gynhyrchu
- Cymorth systemau ymarferol
- Sicrhau ansawdd
- Gwerthuso, adborth ac ansawdd data
- Rhagwelediad, ymchwil a gwyddor data

# Arloesi

Mae arloesedd yn hanfodol, gan ein galluogi i barhau i fod yn **effeithiol, ac i fanteisio i'r eithaf ar werth ein gwaith.** Rydym yn defnyddio proses arloesi wrth ddatblygu gwasanaethau.



## 1
### Chwilio
Canfod arwyddion o newid ar ffurf newidiadau i ofynion defnyddwyr neu'r farchnad, datblygiadau technolegol neu bolisi.

## 2
### Dewis
Asesu'r addasrwydd gyda'r sefydliad, ein hamcanion strategol, sgiliau craidd, gwybodaeth a'n cymwyseddau.

## 3
### Gweithredu
Meddu ar y wybodaeth ofynnol, cyflawni'r prosiect, datrys problemau a lansio'r cam arloesol.

## 4
### Cipio
Bodloni'r manteision penodedig, cipio a chynnal y gwerth, ac ysgogi arloesi pellach.

# Adrodd, monitro a gwerthuso



# Monitro ac adrodd

Rydym yn monitro ac yn adrodd ar ein gweithgareddau, gan gynnwys eu canlyniadau tymor byr a hir, ar amlder y cytunir arno gyda'n comisiynwyr, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw:

**Demograffeg**

**Amseroedd ymateb**
Math, natur a nifer yr cyfnodau cymorth.

- Nodau a chynnydd y cynllun cymorth
- Effaith a chanlyniadau ein gweithgareddau cymorth
- Astudiaethau achos penodol a'u canlyniadau

**Atgyfeiriadau**

- Niferoedd
- Ffynonellau
- Lleoliadau
- Amseroedd a dderbyniwyd
- Atgyfeiriadau ymlaen

# Gwerthuso

Rydym yn dadansoddi'r data rydym ni'n ei gasglu o'n hymchwil, adrodd a monitro i'n helpu i gael dealltwriaeth ac argymhellion y mae modd gweithredu arnyn nhw i wella canlyniadau a chynyddu effaith gymdeithasol.

Erychwch ar **y dolenni isod** i ddysgu mwy ac i ddarllen ein hadroddiadau'n llawn.




## Cael rhyddhau ysbyty yn iawn

Mae ein hadroddiad 'Home to the unknown: Getting hospital discharge right' yn gosod argymhellion i wella gofal pan fydd cleifion yn dychwelyd adref o'r ysbyty.

## Ffilm iechyd

Mae'r ffilm hon yn portreadu ein timau cludiant cleifion ac adran achosion brys sydd wedi eu lleoli yn Ysbyty Prifysgol y Grange yng Nghasnewydd, ein tîm ysbyty yn y cartref yng Nghymbria, a'n gwasanaeth cymorth argyfwng cymunedol yn Nottingham.





## Gweld a chlywed: Deall mynychu aml yn yr adran damweiniau ac achosion brys

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymchwil newydd a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Bwrdd Gofal Integredig Dorset ac yn datblygu ar ein hadroddiad 'Nowhere else to turn' a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2021.

## Animeiddiad o'r ysbyty i'r cartref

Gwyliwch ein hanimeiddiad sy'n dangos taith Bert o'r ysbyty i'r cartref, a sut y bu gwirfoddolwr Y Groes Goch Brydeinig, Sharna, yn ei helpu.



Llun © Artur Tixiliski/BRC



# Am beth rydym ni'n sefyll

# Ein saith egwyddor sylfaenol

Mae'r egwyddorion hyn yn crynhoi ein moeseg ac yn greiddiol i'n dull o helpu pobl mewn angen.



Llun © Dan Mellor/BRC

**Gwasanaeth gwirfoddol**

**Didueddrwydd**

**Dynoliaeth**

**Niwtraliaeth**

**Undod**

**Annibyniaeth**

**Cyffredinoldeb**



Llun © Dan Mellor/BRC




## Deinamig

Rydym ni'n symud ymlaen fel un tîm.

Bob dydd, rydym yn **addasu, yn arloesi** ac yn **dysgu.**

Pan fydd yr annisgwyl yn digwydd, rydym yn ddigynnwrf, **yn gyflym** ac yn **effeithlon.**

Rydym yn ymateb yn ddeallus, gan ddefnyddio **prosesau** a systemau clir.

## Cynhwysol

Rydym yn agored i bawb.

Rydym yn trin ein gilydd gydag **urddas** a **pharch.**

Mae pob unigolyn yn unigryw ac yn cael ei **gwerthfawrogi, ei chefnogi** a'i **dathlu.**

Mae ein cefndir a phrofiadau unigol yn gwneud ein sefydliad yn **gryfach.**

## Tosturiol

Rydym ni'n sefyll dros garedigrwydd.

**Pobl sy'n dod gyntaf,** pwy bynnag ydyn nhw neu ble bynnag maen nhw.

Rydym ni'n cael sgyrsiau **go iawn** gyda meddwl agored.

Gyda'n gilydd, rydym ni'n **rym unedig er lles.**

## Dewr

Rydym yn hyderus.

Rydym ni'n dangos ein cryfder trwy **wneud y peth iawn.**

Nid ydym **yn ofni** profi ein **syniadau creadigol.**

Fel dyngarwyr, rydym ni'n mynd yr ail filltir i **helpu pobl mewn argyfwng.**

# Ein hymrwymiad i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant




Yn Y Groes Goch Brydeinig, mae tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig iawn. Rydym ni'n gwybod bod gwneud hyn yn iawn yn hanfodol er mwyn i ni allu byw ein gwerthoedd a'n hegwyddorion sylfaenol.

**Rydym ni eisiau bod yn sefydliad diogel a chynhwysol sy'n dysgu ac yn tyfu i fynd ati'n rhagweithiol i chwalu rhwystrau, dileu gwahaniaethu a chreu tegwch.**




## Rydym ni eisiau bod yn sefydliad ble...

Mae ein pobl yn dysgu, yn deall ac yn cymryd camau i **chwalu gwahaniaethu**, ac yn creu amgylchedd diogel a **chynhwysol.**

Mae ein gweithlu'n seiliedig ar sgiliau, profiadau a galluoedd amrywiol **ar bob lefel.**

Rydym ni'n cynnwys tegwch ac yn cael gwared ar rwystrau rhag cymryd rhan ym **mhopeth rydym ni'n ei wneud.**

# Cysylltwch â ni

Cysylltwch â ni a byddwn yn eich rhoi mewn cysylltiad â’ch cynrychiolydd rhanbarthol, a fydd yn eich cefnogi chi a’ch gofynion lleol.

## Y Groes Goch Brydeinig

redcross.org.uk

## Y tîm iechyd

health@redcross.org.uk

# Dros ddynoliaeth

Pan mae argyfwng yn troi bywyd rhywun wyneb i waered, rydym ni’n cymryd yr amser i **wrando ar yr hyn sydd wir ei angen arnynt.**


Llun © Fabio Di Paola/BRC


Llun © Dan Mellor/BRC

O **wasanaethau** i **raglenni**, rydym ni’n rhoi **pobl wrth galon popeth rydym ni’n ei wneud.**

Creu **gobaith, urddas** a **charedigrwydd.**

Ni yw’r mudiad sy’n cysylltu **caredigrwydd dynol** ag argyfwng dynol.

Mae Cymdeithas Y Groes Goch Brydeinig, a ymgorfforwyd gan Siarter Frenhinol 1908, yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (220949), Yr Alban (SC037738), Ynys Manaw (0752) a Jersey (430).

**redcross.org.uk**